# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 5ED HYDREF, 2015**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 28/09/2015)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Lesley Day
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Linda Byrne
Margaret E.Jones
Jacqueline Hughes
David Wareing
Einir Young

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Y Cynghorydd David Clay

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. AELODAETH Y PWYLLGOR

Cyflwyno adroddiad llafar y Swyddog Monitro.

## 6. CEISIADAU AM ODDEFEB 5 - 10

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 7. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD 11 - 20

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg (ynghlwm).

## 8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU 21 - 22

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 23 - 43

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 10. ARSYLLU CYFARFODYDD

Derbyn adborth ar lafar gan yr aelodau annibynnol yn dilyn arsyllu cyfarfodydd Cyngor Gwynedd/cynghorau tref a chymuned.

# PWYLLGOR SAFONAU, 29.06.15

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd).

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Ms Linda Byrne a'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams.

Cyfeiriwyd at waeledd Ms Linda Byrne a nododd y Cadeirydd ei bwriad i anfon gair at y teulu.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

(a) 13 Ebrill, 2015 (cyfarfod arbennig)
(b) 20 Ebrill, 2015

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2014-15**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen. Nodwyd y byddai'r cyn-Gadeirydd a'r Swyddog Monitro yn ychwanegu rhagair i'r adroddiad cyn ei gyhoeddi.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr y bwriedid cylchredeg yr adroddiad i glercod y cynghorau cymuned.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft o adroddiad blynyddol a'i gyflwyno i gyfarfod 8 Hydref o'r Cyngor a cheisio cyflwyno'r adroddiadau blynyddol i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor yn y dyfodol, neu os nad ydi hynny'n bosib, i gyfarfod Gorffennaf.**

**4. CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR Y COD YMDDYGIAD I AELODAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS Cymru**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn adrodd fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi trydydd fersiwn ei Ganllawiau ar y Cod Ymddygiad i

Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac yn amgáu'r canllawiau ar gyfer Cynghorau Sir.

Nododd y Swyddog Monitro fod y fersiwn hwn o'r Canllawiau yn ymgorffori:-

- Y prawf dau-gam diwygiedig y bydd yr Ombwdsmon yn ei ddefnyddio wrth ystyried cwynion ynghylch torri Cod Ymddygiad Aelodau sydd bellach yn cynnwys trothwy budd cyhoeddus.
- Cyfarwyddyd pellach ar ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol a siartiau llif fydd yn rhoi cymorth ac eglurder i aelodau ar faterion buddiannau.

Nododd ymhellach:-

- Fod angen cylchredeg yr arweiniad hwn i holl aelodau Cyngor Gwynedd ac i glercod y cynghorau cymuned ac y byddai hefyd yn fuddiol cynnig gweithdy hyfforddiant ar gyfer aelodau'r pwyllgor hwn a holl aelodau'r Cyngor i roi diweddariad ar y Cod Ymddygiad yn sgil y newidiadau.
- Y byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer y cynghorau cymuned a thref yn yr Hydref a gellid, yn y cyfamser, ddatblygu model o drefn datrys yn lleol ar eu cyfer gan awgrymu ei fod yn ffordd iddynt ddatrys ambell fater syml eu hunain oherwydd y prawf budd cyhoeddus.

Pwysleisiwyd bod rhaid i unrhyw becyn cymorth a ddarperir ar gyfer y cynghorau cymuned a thref fod yn dalfyriad syml a chlir ac yn cyfeirio at y ffaith bod yna ragor o fanylion ar gael yn y ddogfen lawn.

**PENDERFYNWYD nodi'r canllawiau diwygiedig ar y Cod Ymddygiad i Aelodau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

**5. RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu rhaglen waith ddrafft ar gyfer y pwyllgor yn dilyn cynnal yr hunan asesiad yn y cyfarfod diwethaf.

Nododd y Swyddog Monitro y ceisid ffurfioli'r drefn o arsyllu pwyllgorau ac y byddai'n dda o beth i'r aelodau annibynnol fynd i arsyllu i gyfarfod o gyngor cymuned / tref er mwyn magu dealltwriaeth o sut mae'r cynghorau hyn yn gweithredu.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cytuno ar y rhaglen waith a ganlyn a'i diwygio / ychwanegu ati yn ôl yr angen:-**

**<u>5 Hydref, 2015</u>**

- **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Trefn Llywodraethu Gorfforaethol**
- **Honiadau yn erbyn Aelodau**
- **Trefn Datrys Leol Model Cynghorau Cymuned**

**<u>25 Ionawr, 2016</u>**

- **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
- **Cofrestr Datgan Buddiant**
- **Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu**
- **Honiadau yn erbyn Aelodau**

<u>**18 Ebrill, 2016**</u>
- **Honiadau yn erbyn Aelodau**
- **Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith**
- **Hyfforddiant**

**(b) Bod pob aelod annibynnol yn mynd i arsyllu i un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd neu gyfarfod o gyngor cymuned / tref rhwng nawr a diwedd Medi ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.**

**(c) Anfon rhestr cyfarfodydd Cyngor Gwynedd 2015/16 i'r aelodau annibynnol.**

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth –

(a) Adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau ac yn diweddaru'r pwyllgor ar sefyllfa ynglŷn â chyfarwyddyd y pwyllgor y dylai'r Cynghorydd Christopher O'Neal dderbyn hyfforddiant gan y Swyddog Monitro ar y Cod Ymddygiad a holl Brotocolau'r Cyngor sy'n berthnasol i ymddygiad cynghorwyr yn sgil torri'r Cod.

(b) Rhifyn 4 o Goflyfr y Cod Ymddygiad.

Ymhellach i'r adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr:-

- <u>2.1 Achos 6141/201400682</u> - Bod yr Ombwdsmon bellach wedi dod i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol, ac er bod yr Ombwdsmon wedi dweud ei bod yn debygol bod y cynghorydd wedi cymryd rhan mewn trafodaeth ar fater lle 'roedd ganddo fuddiant oedd yn rhagfarnu, 'roedd wedi defnyddio'r prawf budd cyhoeddus ac wedi penderfynu nad oedd am ymchwilio.
- <u>2.2 Achos 5847/201404989 & 5847/201404990</u> – Bod yr achos hwn wedi cau ond nad oedd yr Ombwdsmon wedi cadarnhau hynny mewn ysgrifen eto.

Ymhellach i'r adroddiad, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y Cynghorydd O'Neal wedi gofyn am wrandawiad er mwyn egluro pam nad oedd cymryd rhan yn yr hyfforddiant.
- Bod y ddeddf yn rhoi grym i bwyllgor safonau, sy'n dod i'r casgliad bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod, gymryd un o dri phenderfyniad yn unig, sef peidio cymryd unrhyw gamau, ceryddu'r aelod neu ei atal rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod sydd heb fod yn fwy na chwe mis.
- Gan hynny, nad oedd grym statudol y tu cefn i benderfyniad y pwyllgor bod y Cynghorydd O'Neal i dderbyn hyfforddiant, ac mai argymhelliad yn unig ydoedd.
- Na chredai fod budd cyhoeddus mewn parhau i geisio trefnu hyfforddiant ar gyfer yr aelod ac na ellid chwaith gyfiawnhau'r adnoddau a'r amser fyddai'n gymryd i gynnal gwrandawiad arall.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi'r adroddiad ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau er gwybodaeth.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Monitro anfon llythyr at y Cynghorydd Christopher O'Neal yn datgan siomedigaeth y pwyllgor nad yw wedi manteisio ar yr hyfforddiant a argymhellwyd ar ei gyfer.**

**7. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2015**

Nodwyd bod gwahoddiad i hyd at dri aelod o’r pwyllgor fynd i Gynhadledd Safonau Cymru 2015 yng Nghaerdydd ar 20 Hydref gyda’r Cadeirydd a’r Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD ceisio anfon y Cynghorydd Lesley Day, Ms Jacqueline Hughes a Miss Margaret Jones i’r gynhadledd gyda’r Cadeirydd a’r Swyddog Monitro.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.00pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **5 Hydref 2015** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Derbyniwyd dau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Cymuned Bethesda. Atodir copiau o ffurflenni cais y ddau aelod sef y Cynghorwyr Godfrey Northam a Walter Watkin Williams.

2. Mae'r ddau aelod yn gofyn am oddefeb mewn cysylltiad â'r un mater sef trafodaethau ynglyn a throsglwyddo canolfannau lleol o berchnogaeth Cyngor Gwynedd i berchnogaeth y Cyngor Cymuned (neu gorff cymunedol arall). Mae'r Cyng. Northam yn aelod o bwyllgorau Canolfannau Rachub a Chefnfaes a'r Cyng. Williams yn aelod o bwyllgor Canolfan Cefnfaes. Nid ydynt wedi eu penodi ar y pwyllgorau gan y cyngor cymuned.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae'r sefyllfaoedd yma wedi eu rhestri yn y nodiadau amgaeedig. Rhaid i'r Pwyllgor felly ystyries os yw'r ceisiadau yn dod o fewn un o'r sefyllfaoedd hyn.

4. Os yw'n fodlon ei fod yn dod o fewn un o'r categoriau hyn rhaid i'r Pwyllgor wedyn ystyried a ddylid caniatau i'r aelod gael cymryd rhan er bod y Cod Ymddygiad yn darparu na ddylai gael gwneud hynny. Bydd rhaid ystyried y budd cyhoeddus wrth wneud hynny. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y canlynol:

(a) Cais y Cynghorydd Godfrey Northam
(b) Cais y Cynghorydd Walter Watkin Williams

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

**1. MANYLION PERSONOL**

1.1 Eich enw GODFREY D NORTHAM

1.2 Enw eich Cyngor CYNGOR CYMUNED BETHESDA

1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt 4 LLWYN BEDW, RACHUB, LLANLLECHID, BANGOR, GWYNEDD LL57 3EZ
01248 600372

**2. MANYLION EICH BUDDIANT**

2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?

TROSGLWYDDO ASEDAU CYNGOR GWYNEDD I'R GYMUNED NEU'R CYNGOR CYMUNED

2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?

RWYF YN GADEIRYDD AR BWYLLGOR CANOLFAN RACHUB AC YN AELOD O BWYLLGOR CANOLFAN CEFNFAES

**3. MANYLION EICH CAIS**

3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?

SIARAD YN UNIG

3.2 Ydych chi'n:

(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:

YN YSTOD Y CYFNOD TROSGLWYDDO SY'N DECHRAU YN Y DYFODOL AGOS.

neu,

(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk



Ffurflen07-04-14(c)

| 4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol: | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | ☐ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | ☐ |
| • mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☐ |
| • mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☑ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais.**

MAE 13 AELOD O'R CYNGOR
A 4 OHONOM YN GORFOD DATGAN DIDDORDEB,
SY'N GYFRAN UCHEL.

*(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)*

**Arwyddwyd** Godfrey D Northam **Dyddiad** 28/7/15

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

**www.gwynedd.gov.uk**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



Ffurflen07-04-14(c)

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

## 1. MANYLION PERSONOL

1.1 Eich enw

WALTER WATKIN WILLIAMS

1.2 Enw eich Cyngor

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt

ARENIG,
14 ERWLAS,
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NN

Ffôn - 01248 601167

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?

CANOLFAN CEFNFAES

2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?

Yr wyf yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan Cefnfaes.

## 3. MANYLION EICH CAIS

3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?

Siarad a phleidleisio.

3.2 Ydych chi'n:

(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:

neu,

(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?

Gall y mater godi mewn mwy nag un cyfarfod o'r Cyngor

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

| 4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol: | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | ☐ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | ☐ |
| • mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☐ |
| • mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☑ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais.**

Credaf nad yw'r ffaith fy mod yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan Cefnfaes, yn amharu ar fy rôl ar Gyngor Cymuned Bethesda.

CYNGOR GWYNEDD
25 AWST 2015
GWASANAETH CYFREITHIOL

***(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)***

**Arwyddwyd** Walter W. Williams **Dyddiad** 20/8/15

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Nodiadau ar gwblhau’r ffurflen

**1.** Hon yw’r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *‘fuddiant sy’n rhagfarnu’* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau’r Ombwdsmon ac yn llyfryn ‘Buddiannau’ Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw’n dod o fewn un o’r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

“ (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.”

*I’w dychwelyd i’r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â’r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **5 Hydref 2015** |
| **Teitl :** | **Fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd** |
| **Awdur :** | **Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw egluro Fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd i'r Pwyllgor Safonau. Y bwriad yw egluro i'r Pwyllgor:

- Sut mae'r Fframwaith Lywodraethu wedi cael ei ddatblygu
- Beth yw'r drefn i adolygu'r fframwaith ac adrodd ar y canlyniadau
- Rôl y Pwyllgor Safonau o fewn y fframwaith.

## 2. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD

2.1 Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae Fframwaith Llywodraethu bresennol y Cyngor yn cynnwys 31 o elfennau unigol. Gyda'u gilydd, mae'r elfennau hyn yn cyfuno i greu cyfanwaith sy'n cynorthwyo'r Cyngor i drosglwyddo ei adnoddau i werth cyhoeddus.

2.3 Mae'r Pwyllgor Safonau yn un o'r 31 elfen yma.

2.4 Datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu gyfredol gan ddefnyddio'r Côd Llywodraethu Lleol, a fabwysiadwyd gan Fwrdd y Cyngor yn Ebrill 2011, fel sylfaen. Yn y cyfnod ers Ebrill 2011, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, y Pwyllgor Archwilio, y Grŵp Rheoli, y Tîm Rheoli Corfforaethol a Cabinet y Cyngor wedi ystyried y polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi'r 6 egwyddor craidd o fewn y Côd Llywodraethu Lleol ac wedi mireinio rhain drwy ychwanegu, uno neu dynnu elfennau allan er mwyn creu'r Fframwaith Lywodraethu bresennol.

## 3. CÔD LLYWODRAETHU LLEOL

3.1 Mae'r Côd Llywodraethu Lleol ei hun hefyd yn un o'r 31 elfen yn y Fframwaith Llywodraethu.

3.2 Datblygwyd "Safon Genedlaethol ar Gyfer Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus" gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2004. Addaswyd y safon at ddefnydd llywodraeth leol yn benodol gan CIPFA a Solace yn 2007.

3.3 Mae'r safon yn cynnwys chwe egwyddor graidd ynghyd â nifer o egwyddorion cefnogol i bob un. Mae'r safon yn nodi'r anghenion ar gyfer cwrdd â'r egwyddorion a'r hyn a ddylid ei adlewyrchu mewn côd llywodraethu lleol.

3.4 Gan eu bod wedi eu datblygu yn genedlaethol at ddiben llywodraeth leol, ac yn adlewyrchu yr hyn sy'n ofynnol gan gorff sydd â safonau llywodraethu da, mabwysiadodd y Cyngor chwe egwyddor craidd a'r egwyddorion cefnogol o'r safonau cenedlaethol.

3.5 **Mae'r Côd Llywodraethu Lleol wedi cael ei gynnwys yn Atodiad 1.**

## 4. GRŴP ASESU TREFNIADAU LLYWODRAETHU

4.1 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg (Adran Gyllid).

4.2 Y Grŵp sydd wedi defnyddio'r Côd Llywodraethu Lleol i adnabod y 31 o elfennau sy'n ffurfio Fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd, gan roi ystyriaeth arbennig i'r effaith y disgwylir i bob un o'r rhain eu cael wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwynedd. Mae'r Grŵp wedi nodi sgôr Effaith ("Impact") i bob un o'r elfennau, i adlewyrchu pa mor gymharol fawr yw effaith pob un ohonynt (ym marn y Grŵp) wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (impact fychan iawn) i 10 (impact uchel iawn). Mae'r sgoriau hyn wedyn yn cael eu hasesu, eu herio a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a Grŵp Rheoli'r Cyngor.

4.3 Nid oes yr un o'r elfennau wedi sgorio llai na 5 – pe byddent, byddai'n amheus os oeddent yn haeddu lle amlwg o fewn y Fframwaith Llywodraethu o gwbl.

## 5. HUNANASESIAD BLYNYDDOL O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

5.1 Mae gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth yn golygu fod rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau llywodraethu o leiaf unwaith yn flynyddol, a cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

  **Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.**

  **Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.**

  **Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.**

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")

- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*, ac atodiadau dilynol. Cyhoeddwyd yn atodiad diweddaraf yn Rhagfyr 2012.

5.2 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan roi sylw i faterion sydd yn dod i'w sylw sy'n effeithio ar ei ganfyddiad o'r fframwaith lywodraethu. Nodir yn 4.2 uchod fod y Grŵp wedi sgorio **Impact** cymharol pob un o elfennau'r Fframwaith Llywodraethu ar raddfa o 1 i 10. Wrth gynnal hunanasesiad o'r fframwaith, rhoddir sgôr **Effeithiolrwydd** i'r elfennau hefyd. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (aneffeithiol iawn) i 10 (hynod effeithiol).

5.3 Mae'r dystiolaeth y rhoddir ystyriaeth iddo wrth gynnal yr asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu yn cynnwys asesiadau gan aelodau a prif swyddogion wrth ddatblygu cyfundrefn "Ffordd Gwynedd", gwaith Archwilio Mewnol ac ystyriaeth o ganlyniadau gwaith archwilwyr a rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

5.4 Caiff canlyniad yr asesiad yma ei herio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Grŵp Rheoli.

5.5 Mae defnyddio sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd yn caniatáu'r defnydd o matrics sy'n cynnwys yr elfennau unigol er mwyn arddangos effeithiolrwydd y fframwaith yn ei gyfanrwydd. Wrth wneud hyn, mae modd adnabod yr elfennau hynny sydd angen eu blaenoriaethu, sef:

**Yr elfennau all gael yr impact fwyaf ar ein gallu i gyflawni ar ran Pobl Gwynedd, ond sydd lleiaf effeithiol hyn o bryd**

5.6 **Mae'r matrics ddiweddaraf wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.**

5.7 Mae'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu mewn datganiad sydd yn dweud wrth pobl Gwynedd beth yw ein fframwaith lywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio.

5.8 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn chwarae rôl allweddol wrth i'r Cyngor fabwysiadu ei ddatganiad blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

5.9 Felly, yn ei gyfarfod olaf cyn diwedd Mehefin bob blwyddyn, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am gynnwys yr hunanasesiad o'r 31 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.

- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

## 6. RÔL Y PWYLLGOR SAFONAU

6.1 Mae'r Côd Llywodraethu Lleol yn datgan fod reolau gweithdrefn ac adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau yn cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Graidd 3 y Côd, sef hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.

6.2 Yn ei asesiad diweddaraf o Impact ac Effeithiolrwydd elfennau'r Fframwaith Llywodraethu, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 30 Mehefin 2015, nodwyd y canlynol am y Pwyllgor Safonau:

> ***Sgôr Impact 6****: Y Pwyllgor Safonau sydd yn dal aelodau i gyfrif am eu hymddygiad. Yn hynny o beth, mae'n gymorth wrth sicrhau fod aelodau'r Cyngor yn gweithredu yn anad dim er lles Pobl Gwynedd.*
>
> ***Sgôr Effeithiolrwydd 7:*** *Mae'r Pwyllgor Safonau yn ei le ac yn gweithredu gyda Cylch Gorchwyl cytunedig. Mae cofnodion y Pwyllgor yn dangos ei fod yn edrych ar achosion penodol wrth ymgymryd â'i waith. Mae'r Pwyllgor ei hun hefyd wedi cynnal hunan asesiad.*
>
> *Mae asesiad pellach gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn awgrymu bod y sgôr effeithiolrwydd o 5 a roddwyd yn 2014 yn ymddangos yn hallt, ac mae asesiad yn dangos gwelliant. Nodwyd fod y Pwyllgor yn cyflawni ei rôl plismona yn dda, ond fod lle i wella ei weithgareddau hyrwyddo safonau da.*

6.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu'r Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau y gwarchodir safonau ymddygiad o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor, a wedi mabwysiadu Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 i reoli gweithdrefnau'r Pwyllgor. Mae hynny yn cyfrannu yn arwyddocaol i allu'r Cyngor i sicrhau fod aelodau'r Cyngor yn rhoi'r budd cyhoeddus yn flaenllaw, yn hytrach na bod yn hunanlesol.

6.4 Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau yn enghraifft o dystiolaeth o pa mor dda y mae'r Pwyllgor yn gwireddu ei amcanion. Mae'r ffaith fod yr adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi, a fod cofnod cyfarfod y Pwyllgor ar 29 Mehefin 2015 yn dangos fod trafodaeth wedi ei gynnal i amseriad cyflwyniad yr adroddiad i'r Cyngor llawn, yn dystiolaeth o'r ystyriaeth a roddir gan y Pwyllgor ei hun i'w rôl a'r ffordd orau i gyflawni hynny. Mae hyn yn cyfrannu i drefniadau llywodraeth cadarn o fewn yr Awdurdod.

6.5 Mae cyfle i'r Pwyllgor Safonau herio'r sgoriau yn 6.2, a chynnig tystiolaeth i awgrymu pam y dylid eu newid. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Swyddog Monitro a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.

## 7. ARGYMHELLIAD


7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau ystyried yr adroddiad yma, cynnig sylwadau ar ei gynnwys a chymeradwyo'r adroddiad.

ATODIAD 1

# CYNGOR GWYNEDD

# CÔD LLYWODRAETHU LLEOL

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn y dull gorau posib. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r chwe egwyddor craidd o "Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol" (*Cipfa/Solace 2007*).




Mae gan bob un o'r chwe egwyddor craidd nifer o egwyddorion cefnogol.

Ystyr “llywodraethu da” ydi sicrhau fod y fframwaith polisïau, systemau, gweithdrefnau a strwythurau sydd, gyda’i gilydd yn rheoli’r ffordd mae’r Cyngor yn gweinyddu ei fusnes, yn cydymffurfio hefo’r chwe egwyddor uchod.

Mae llywodraethu da yn golygu bod gwerthoedd a diwylliant y Cygnor yn gweddu i’r egwyddorion hyn.

Mae llywodraethu da yn golygu gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i’r bobl iawn, mewn modd amserol, gynhwysol, agored, onest ac atebol.

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod llywodraethu da yn arwain at reolaeth dda, perfformiad da, cysylltiadau da hefo’r gymuned ac yn y pen draw deilliannau da i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod 2010 cynhaliodd y Cyngor hunan asesiad o’i drefniadau llywodraethu gan asesu yn erbyn pum thema:

- llwyddiannau a chanlyniadau
- arwain a llywodraethu
- ymgysylltu â chwsmeriaid, cymunedau a phartneriaid
- rheoli adnoddau a pherfformiad
- trefniadaeth a phobl.

‘Roedd canlyniadau’r hunan asesiad yn adnabod mannau o gryfder ynghyd a materion i dderbyn sylw mewn cynllun gweithredu. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn yr hunan asesiad yn sail i’r Côd Llywodraethu Lleol.

Pwrpas y Côd Llywodraethu Lleol hwn yw crynhoi mewn un ddogfen yr egwyddorion mae’r Cyngor yn eu harddel wrth lywodraethu ynghyd â disgrifiad o’r polisïau, strategaethau a gweithdrefnau sy’n dangos sut mae’r Cyngor yn bwriadu cwrdd â nhw. Bydd yn ddogfen fyw ac fe ychwanegir ati wrth i bolisïau a strategaethau eraill gael eu datblygu yn dilyn yr hunan asesiad.

Bydd y Côd hwn yn cael ei adolygu’n flynyddol wrth i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei lunio.

| |
|---|
| **Egwyddor craidd 1:** <u>Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i’r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i’r gwasanaeth).</u> |
| *Egwyddorion cefnogol*:<br>• Ymarfer arweinyddiaeth strategol drwy ddatblygu a chyfathrebu’n glir bwrpas a gweledigaeth yr awdurdod a’r deilliannau a fwriedir ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.<br>• Sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn ansawdd uchel o wasanaeth naill ai yn uniongyrchol, neu mewn partneriaeth, neu trwy gomisiynu.<br>• Sicrhau fod yr awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth am arian ardderchog. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy’n cefnogi.<br>• Gwerthoedd y Cyngor.<br>• Cynllun Tair Blynedd y Cyngor<br>• Y Strategaeth Gymunedol<br>• Datganiad o’r cyfrifon<br>• Strategaeth ariannol<br>• Y drefn gwynion<br>• Y gyfundrefn ‘Cyflawni’<br>• Y Côd Llywodraethu Lleol<br>• Llythyr blynyddol yr Archwiliwr. |

| |
|---|
| **Egwyddor graidd 2:** <u>Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio’n glir.</u> |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar draws yr awdurdod a bod yn glir ynglŷn â swyddogaethau gweithredol ac anweithredol ac am rolau a chyfrifoldebau'r swyddogaeth graffu.<br>• Sicrhau fod perthynas weithio adeiladol yn bodoli rhwng aelodau a swyddogion yr awdurdod a bod cyfrifoldebau aelodau a swyddogion yr awdurdod yn cael eu cyflawni i safon uchel.<br>• Sicrhau fod perthynas rhwng yr awdurdod a’r cyhoedd yn glir fel bod y naill yn gwybod beth sy’n ddisgwyliedig oddi wrth y llall |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy’n cefnogi.<br>• Cynllun dirprwyo i bwyllgorau<br>• Cynllun dirprwyo’r arweinyddion portffolio<br>• Cynllun dirprwyo i swyddogion<br>• Taflenni penderfyniad<br>• Disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau aelodau<br>• Protocolau ar gyfer gweithredu swyddogaethau swyddogion statudol<br>• Protocol cyswllt aelod/swyddog<br>• Cynllun lwfansau aelodau |

| **Egwyddor graidd 3:** Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad. |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Sicrhau fod aelodau a swyddogion yr awdurdod yn arfer arweinyddiaeth trwy ymddwyn mewn ffyrdd sydd yn arddangos safonau uchel o ymddygiad a llywodraethu effeithiol.<br>• Sicrhau fod gwerthoedd y gyfundrefn yn cael eu hymarfer ac yn effeithiol |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Côd Ymddygiad Aelodau<br>• Côd Ymddygiad Swyddogion<br>• Safon Gwynedd<br>• Rheolau gweithdrefn y Pwyllgor Safonau<br>• Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd<br>• Rheolau gweithdrefn y Cyngor<br>• Rheolau gweithdrefn ariannol<br>• Rheolau gweithdrefn contractau<br>• Y drefn werthuso<br>• Cynllun archwilio mewnol<br>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch - swyddogion<br>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch - aelodau<br>• Polisi buddiannau swyddogion<br>• Aadroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau. |

| **Egwyddor graidd 4:** Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg. |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol*:<br>• Bod yn drwyadl a thryloyw ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau gan wrando a gweithredu ar ddeilliannau craffu adeiladol.<br>• Cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ansawdd uchel er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn effeithiol, a'u bod yr hyn y mae'r gymuned ei eisiau/angen.<br>• Sicrhau fod system effeithiol i reoli risg yn ei lle.<br>• Defnyddio pwerau cyfreithiol at fudd llawn trigolion a chymunedau yn eu hardal. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Strategaeth rheoli risg<br>• Rheolau gweithdrefn trosolwg a chraffu<br>• Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau<br>• Strategaeth trosolwg a chraffu<br>• Rhaglen hyfforddi aelodau (Craffu).<br>• Rhaglen hyfforddi swyddogion (Trefniadau Cyfansoddiadol)<br>• Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio<br>• Y drefn gwynion<br>• Taflenni penderfyniad<br>• Cofnodion pwyllgorau<br>• Côd Ymarfer "Canu'r Gloch".<br>• Llawlyfr Canllawiau i Gadeiryddion<br>• Y Strategaeth Gaffael<br>• Cofrestr Risgiau Corfforaethol |


| |
|---|
| **Egwyddor craidd 5:** <u>Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.</u> |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Gwneud yn siŵr fod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, gwybodaeth, profiad ac adnoddau angenrheidiol er mwyn perfformio’n dda yn eu rolau.<br>• Datblygu capasiti’r bobl sydd â chyfrifoldebau llywodraethu a gwerthuso eu perfformiad, fel unigolion ac fel grŵp.<br>• Annog talent newydd ar gyfer aelodaeth yr awdurdod fel y gwneir y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau unigolion wrth fantoli parhad ac adnewyddiad. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy’n cefnogi.<br>• Rhaglen anwytho aelodau newydd<br>• Strategaeth hyfforddi aelodau<br>• Cynllun datblygu personol aelodau<br>• Cynllun datblygu a hyfforddi swyddogion<br>• Y drefn werthuso<br>• Cynllun olyniaeth<br>• Y drefn recriwtio<br>• Siarter Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br>• Fframwaith cymwyseddau rheoli |

| |
|---|
| **Egwyddor craidd 6:** <u>Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.</u> |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Ymarfer arweinyddiaeth trwy swyddogaeth graffu gadarn sydd yn ymgysylltu’n effeithiol â phobl leol a phob budd-ddeiliad sefydliadol lleol, gan gynnwys partneriaethau, a datblygu perthnasau atebol adeiladol.<br>• Cymryd agwedd gweithgar a chynlluniedig i ddeialog gydag, ac atebolrwydd i’r, cyhoedd er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac addas, naill ai yn uniongyrchol gan yr awdurdod, mewn partneriaeth, neu trwy gomisiynu.<br>• Gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol trwy gymryd agwedd gweithgar a chynlluniedig i gwrdd â chyfrifoldebau i staff. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy’n cefnogi.<br>• Adroddiad blynyddol craffu<br>• Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau<br>• Côd Ymarfer Cynllunio.<br>• Adroddiad blynyddol “Cyrhaeddiad y Cyngor”.<br>• Y Strategaeth Gymunedol “Gwynedd ar y Cyd”. |

**ATODIAD 2** **MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Wrth osod y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd yn y diagram isod, arddangosir y materion sydd angen sylw fel mater o flaenoriaeth, sef y meysydd hynny sy'n cael yr impact fwyaf, ond sydd lleiaf effeithiol ar hyn o bryd:

ASESIAD O ELFENNAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU A PHROSESAU SY'N RHAN O LYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD



| Pwyllgor : | PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 5 Hydref 2015 |
| Teitl : | Honiadau yn erbyn aelodau |
| Awdur : | Swyddog Monitro |
| Gweithredu : | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

**2. Cwynion**

**2.1 Achos 4654/201502178**

Dyddiad derbyn 10/07/15

**Cwyn**

Cwyn yn erbyn cynghorydd sir gaen aelod o'r cyhoedd, ei fod wedi cynnal ymgyrch leol mewn cyslltiad â mater penodol, ac wedi camarwain swyddogon y cyngor ynglyn â'r amgylchiadau yn yr ardal.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad – achwynydd heb ddarparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau.

**2.2 Achos 9367/201503011, 201503014, 201503020, 201503025**

Dyddiad derbyn:**26/08/15**

**Cwyn**

Cwynion gan bedwar unigolyn yn deillio o'r un digwyddiad.  Cwyno bod cynghorydd sir wedi gwneud cyhuddiadau difrifol nad oeddynt yn wir am unigolion oedd wedi bod yn cynnal protest, mewn e-byst ac ar Facebook.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad – mae gan yr aelod yr hawl i wneud fynegu barn yn enwedig

os yw'n farn wleidyddol. Fel aelod etholedig roedd ganddo'r hawl i rannu ei farn wleidyddol ynglyn a'r digwyddiadau dan sylw.

**2.3 Achos 201503255**

Dyddiad derbyn: 02/09/15

**Cwyn**

Cwyn yn dilyn sgwrs ffôn rhwng yr achwynydd a chynghorydd cymuned.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

**3. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **5 Hydref 2015** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2014/15** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2014 – 2015.

2. Mae copi o'r rhannau hynny o'r adroddiad sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman-wales.org.uk)

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

# 1. Cyflwyniad gan yr Ombwdsmon


Nick Bennett
Ombwdsmon
*(o Awst 2014)*


Margaret Griffiths
Ombwdsmon Dros Dro
*(hyd at Gorffennaf 2014)*

Rwyf yn falch iawn o gyflwyno'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn 2014/15. Hwn yw nawfed Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ers creu'r swydd ym mis Ebrill 2006. Roedd 2014/15 wrth gwrs yn flwyddyn o bontio. Cychwynnais yn fy swydd fel Ombwdsmon ym mis Awst 2014 gan olynu'r Athro Margaret Griffiths a fu'n Ombwdsmon Dros Dro hyd at fis Gorffennaf 2014 ac wedi bod yn y swydd honno ers mis Rhagfyr 2013. Dymunaf dalu teyrnged i'r Athro Griffiths am gyflawni'r swydd dros dro mor fedrus yn ogystal â'r cymorth a'r gefnogaeth a roddodd i mi yn ystod y cyfnod pontio. Roeddwn yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Arloesedd

Ar ôl i mi gychwyn yn fy swydd, un o'r pethau cyntaf a'm trawodd oedd y realiti amlwg bod y cynnydd mewn ymholiadau a chwynion i'r swyddfa hon, yr adroddwyd amdanynt yn yr Adroddiadau Blynyddol blaenorol, yn parhau yn 2014/15. Yn ystod Mehefin 2014, y mis cyn i mi gychwyn yn fy swydd, roedd hi'n arwyddocaol bod y swyddfa wedi derbyn y nifer mwyaf o ymholiadau a'r nifer mwyaf o gwynion ers i'r swydd ddod i fodolaeth ym mis Ebrill 2006. Erbyn diwedd y flwyddyn bu cynnydd o 7% yn nifer yr holl gysylltiadau o'i gymharu â 2013/14 (hynny yw, ymholiadau, cwynion am gyrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau o awdurdodau lleol).

Wrth edrych yn ôl ar y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd o 126% yn nifer y cwynion am gyrff y GIG (sy'n cynnwys byrddau iechyd, Meddygon Teulu a Deintyddion). Er nad yw'n ddarlun mor ddramatig, ni ddylid anwybyddu bod cwynion am gynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol yn cynyddu hefyd. Eto, o gymharu'r sefyllfa â phum mlynedd yn ôl, bu cynnydd o 10%. Gellir gweld mwy o fanylion am y cwynion a gyflwynwyd i fy swyddfa yn ystod 2014/15 yn adran 3 yr adroddiad hwn.

Bu'r duedd hon o gynnydd yn niferoedd y cysylltiadau â fy swydd yn achos pryder i mi. Er bod gwaith canmoladwy wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diweddar i liflinio prosesau'r swyddfa o ddelio â chwynion, rwyf wedi bod yn awyddus ein bod yn ceisio clustnodi ffyrdd eraill o greu enillion effeithlonrwydd. Felly bu i mi gychwyn prosiect arloesi, a gynhaliwyd am gyfnod o dri mis. Bu i'r holl staff ymgysylltu â hyn. Bu i'r gwaith arwain at dros 30 o gamau gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gysylltiedig â newidiadau mewnol, gyda ffocws allweddol ar atgyfnerthu a chreu gwell momentwm mewn perthynas â dod yn 'swyddfa ddi-bapur'. Rydym o'r farn y bydd y dull hwn yn ein galluogi i greu

mwy o enillion effeithlonrwydd mewn perthynas ag ymarferoldeb delio â dogfennau gwaith achos. Fodd bynnag, bydd yna oblygiadau hefyd i gyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth, ac roeddwn yn gallu cyhoeddi ym mis Chwefror y buasem yn newid ein dull fel y buasem yn gofyn am gofnodion mewn fformat electronig yn unig, ond yn gysylltiedig â hyn y buaswn yn byrhau'r amserlenni a ganiateir i gyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth ddarparu'r cofnodion y gofynnwyd amdanynt. Hefyd bwriedir cynyddu'r defnydd o Skype/cynadledda fideo er mwyn cynnal cyfweliadau ar draws Cymru.

## Newid y duedd

Yn ogystal â'r newidiadau sy'n deillio o'r gwaith arloesi, rwy'n credu'n gryf y dylem ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â chynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol a byrddau iechyd gyda'r bwriad o hyrwyddo gwelliannau o ran eu dulliau o ddelio â chwynion. Mae'r ddau sector yma yn gyfrifol am 83% o'r cwynion yr wyf yn eu derbyn. Yn ei hanfod, mae'r gwasanaeth yr wyf yn ei ddarparu yn adweithiol. Hynny yw, mae'n rhaid i mi ymateb i'r ymholiadau a'r cwynion sy'n cyrraedd fy swyddfa. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i weld mwy o gwynion pobl yn cael eu prosesu a'u datrys ar lefel leol, gan ddarparu datrysiad cyflymach i'r achwynwyr a gostwng lefel y cwynion sy'n cyrraedd fy nesg. Ni ellir cynnal y cynnydd yn nifer y cwynion sy'n cyrraedd fy swyddfa yn amhenodol heb adnoddau ychwanegol, ac rwyf yn awyddus i ni weithredu'n rhagweithiol er mwyn newid y duedd.

Hefyd, rwyf yn credu bod angen i ni wneud mwy mewn perthynas â chreu effaith ehangach mewn perthynas â gwella darparu gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu tuag at bolisi cyhoeddus yng Nghymru, y tu hwnt i geisio gwelliannau yn y fan y cododd y broblem. Yn ogystal â'r 'lles cyffredin' fydd yn deillio o hyn, rwyf yn credu y bydd hyn yn y pen draw yn arwain at lai o gwynion yn cyrraedd fy swyddfa. Fel rhan o'r rhaglen hon, byddaf yn rhoi mwy o bwyslais ar gasglu data yn fy swyddfa fy hun mewn perthynas â'r cwynion yr ydym yn eu derbyn, fel y gallwn greu data ystadegol manylach, ac felly gwybodaeth, mewn perthynas â thueddiadau a phatrymau ynghylch y cwynion yr ydym yn eu derbyn.

Rwyf hefyd wedi meddwl yn ddwys ynglŷn â sut y dylid strwythuro fy adnoddau staffio er mwyn fy ngalluogi i gyflawni'r pethau hynny sy'n flaenoriaethau i mi. Ar ôl penderfynu ar fy nghasgliadau, cyflwynais fy nghynigion i fy staff ym mis Mawrth 2015. Byddaf yn cychwyn ar weithredu'r newidiadau hynny yn gynnar yn 2015/16.

## Ymchwiliad y Cynulliad i Bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Agwedd arall y bu i mi roi sylw cynnar iddo wedi i mi gychwyn yn fy swydd fel Ombwdsmon oedd ystyried a oedd angen adolygu Deddf OGCC, yn arbennig gan ei bod erbyn hyn yn ddeg oed. Cymerais fantais o fy nghyfnod 'cynefino' fel Ombwdsmon i sefydlu beth oedd arferion gorau ymysg cyd ombwdsmyn, yn arbennig yn y DU ond hefyd y tu hwnt i hynny. Ar ôl ystyried yr hyn a welais, er bod Deddf OGCC yn parhau i ennill parch y gymuned ombwdsmyn, penderfynais fod yna berygl y byddai Cymru yn cael ei gadael ar ôl mewn perthynas â datblygiadau oedd yn digwydd mewn gwledydd eraill. Hefyd, rwyf yn credu bod angen sicrhau bod y Ddeddf yn barod i'r dyfodol er mwyn fy ngalluogi i a fy olynyddion i ymateb i'r heriau yr ydym yn gwybod fydd yn wynebu Cymru gyda chymdeithas fydd yn heneiddio yn y dyfodol.

Felly, gan adeiladu ar waith yr Ombwdsmon blaenorol, Peter Tyndall, bu i mi gyflwyno nifer o gynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â meysydd ble'r oeddwn yn credu y gellid ymestyn ac atgyfnerthu'r Ddeddf bresennol. Roeddwn yn eithriadol falch bod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roeddwn yn hapus iawn bod cymaint o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid wedi rhoi eu hamser ac wedi mynd i'r drafferth i ddarparu tystiolaeth. Roedd hyn yn amrywio o gyrff yn yr awdurdodaeth a'u sefydliadau cynrychioliadol, Comisiynwyr Cymru, yn ogystal â chyd Ombwdsmyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac arbenigwyr academaidd yn y maes. Wrth i mi ysgrifennu hyn, rydym yn disgwyl penderfyniad y Pwyllgor Cyllid ynghylch a ddylid argymell cyflwyno Bil mewn perthynas â phwerau OGCC.

## Diolch

Yn olaf, hoffwn ddiolch i staff fy swyddfa. Nid yw trawsnewid yn hawdd, ond mae eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad o'r radd flaenaf.



Nick Bennett
Ombwdsmon

# 2. Fy Rôl fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; a'r ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth yr wyf yn ei ddarparu yn wasanaeth am ddim.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, yn gyffredinol, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus y mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r cyrff a noddir ganddi.

Ers 1 Tachwedd 2014, rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat.

Wrth ystyried cwynion, rwyf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu a ydynt wedi derbyn gwasanaeth gwael o ganlyniad i fai ar ran darparwr y gwasanaeth. Bydd sylw hefyd yn cael ei roi i p'un a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisïau ei hun. Os bydd cwyn yn un ddilys, byddaf yn argymell camau unioni priodol. Y prif ddull a ddefnyddir wrth argymell camau unioni, pan fo'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi dioddef yr anghyfiawnder) yn ôl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r broblem wedi codi. Hefyd, os byddaf yn gweld tystiolaeth o wendid systematig yn ystod fy ymchwiliad, bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno er mwyn lleihau'r tebygolrwydd yr effeithir ar eraill yn yr un modd yn y dyfodol.

## Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000, a Gorchmynion perthnasol a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau o:

- gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parciau cenedlaethol a
- phanelau heddlu a throseddu.

Mae gan yr holl awdurdodau hyn god ymddygiad sy'n nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid i'r aelodau ddilyn egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig mewn bywyd cyhoeddus.

Os bydd cynghorydd sir yn dymuno cwyno am gynghorydd sir arall yn ei awdurdod ei hun, byddaf yn disgwyl iddo gyflwyno'i gŵyn i Swyddog Monitro'r awdurdod hwnnw i ddechrau, oherwydd efallai ei bod yn bosibl datrys y mater yn lleol heb fy nghynnwys i.

## Gweledigaeth, Gwerthoedd ac Amcanion Strategol

**Nod Strategol 1:**
Cynnig gwasanaeth sy'n rhoi lle blaenllaw i ofal cwsmeriaid ardderchog ym mhopeth a wnawn, lle rydym yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth a lle rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn hawdd ei ddefnyddio.

**Nod Strategol 2:**
Darparu gwasanaeth o safon uchel ar gyfer ymdrin â chwynion, sy'n ystyried ac yn dod i benderfyniad ynghylch cwynion mewn modd trylwyr ond cymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau'n glir.

**Gwerthoedd**

Hygyrchedd

Tegwch

Dysgu

Effeithiolrwydd

Bod yn gyflogwr da

**Gweledigaeth**
I unioni pethau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaethau hynny ac o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus drwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r cwynion rydym yn eu hystyried

**Nod Strategol 3:**
Defnyddio'r wybodaeth a gawsom o'n hymchwiliadau i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gwell ac i weithredu fel sail ar gyfer polisi cyhoeddus.

**Nod Strategol 4:**
Parhau i ddadansoddi a gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd o ran llywodraethu, prosesau busnes a swyddogaethau cymorth, er mwyn bod yn fwy tryloyw a sicrhau y defnyddir yr arian cyhoeddus sydd yn ein gofal yn y ffordd orau bosibl.

## 3. Y Gwasanaeth Cwynion

**3,470**
Ymholiadau
cynnydd **7%** ar 2013/14

Cyfanswm Cwynion
**2,296**
cynnydd **6%** ar 2013/14

### **Cwynion** am **gyrff cyhoeddus**

**2,065** o Gwynion
**cynnydd 7%** ar 2013/14

**938**
**Cwyn am Gynghorau Sir**
cynnydd **5%**

**769**
**Cwyn am y GIG**
cynnydd **1%**

Mae'r rhain yn cyfrif am **83%** o'r holl gwynion am Gyrff Cyhoeddus

### **Cod Ymddygiad**

**231** o Gwynion
**cynnydd 1%** ar 2013/14


**125**
Cwyn am
**Gynghorwyr Sir**
cynydd **13%**

**106**
Cwyn am
**Gynghorwyr Cymuned**
gostyngiad **8%**

Mae'r rhain yn cyfrif am **100%** o'r holl gwynion Cod Ymddygiad

## Canlyniadau cwynion am Gyrff Cyhoeddus 2014/15

Cyfanswm yr achosion a gaewyd: **2,015**




**349** o gwynion a chadarnhawyd/ cadarnhawyd yn rhannol



**12** o'r rhain o **fudd cyhoeddus**

## Canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad 2014/15

Cyfanswm yr achosion a gaewyd: **239**






**17** Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri

**8** Dim angen gweithredu


**1** Cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru

**8** Cyfeiriad at bwyllgor safonau

## Y Llwyth Achosion – Trosolwg

Mae Adroddiadau Blynyddol blynyddoedd blaenorol wedi tynnu sylw at y cynnydd yn y nifer o ymholiadau a chwynion i'r swyddfa hon. Gwelodd y flwyddyn 2014/15 y duedd honno yn parhau. Bu cynnydd o 7% yn yr holl gysylltiadau (hynny yw, ymholiadau, cwynion am gyrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol) a chan taflu golwg yn ôl dros y bum mlynedd diwethaf, bu yna gynnydd o 104%.

**Holl Ymholiadau a Chwynion a dderbyniwyd fesul blwyddyn**




## Ymholiadau

Fe wnaeth y swyddfa'n ymdrin â 3,470 o ymholiadau yn ystod 2014/15, o'i gymharu â 3,234 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 7%.

Ymholiadau yw cysylltiadau gan achwynwyr posibl sy'n holi am y gwasanaeth a ddarperir ac nad yw, yn y diwedd, yn arwain at wneud cwyn ffurfiol i mi. Ar adeg y cysylltiad cyntaf hwn, byddwn yn gweithredu mewn un o sawl ffordd, gan gynnwys:

- cynghori pobl sut i gyflwyno cwyn i mi os nad yw pobl wedi gwneud cwyn i'r corff cyhoeddus perthnasol eto, byddwn yn eu cynghori'n briodol, gan anfon eu cwyn yn uniongyrchol at y corff hwnnw ar eu rhan os mai dyna yw eu dymuniad
- os yw'r mater y tu allan i fy awdurdodaeth, byddwn yn cyfeirio'r ymholwr at y sefydliad priodol a all eu helpu
- mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion hefyd, pan fydd hynny'n briodol, yn ymdrechu i ddatrys problem yn ystod y cam ymholiad heb fynd â'r mater ymlaen i gam cwyn ffurfiol.

Rydym yn falch ein bod yn gallu darparu gwasanaeth prydlon ar y rheng flaen er gwaetha'r ffaith bod y cynnydd yn nifer yr ymholiadau yn parhau i godi. Fe wnaethom osod targed i ateb galwadau i brif linell y dderbynfa o fewn 30 eiliad mewn 95% o achosion. Cafwyd 6,307 o alwadau o'r fath i'r swyddfa yn ystod 2014/15, ac atebwyd 99% o'r rhain o fewn yr amser hwnnw, sydd yn amlwg yn well na'r targed y gwnaethom osod i ni ein hunain.

## Cwynion am gyrff cyhoeddus

Mae nifer y cwynion am gyrff cyhoeddus rwyf yn eu derbyn yn dal i gynyddu. Fe wnaethom dderbyn 2,065 o'r fath gwynion yn 2015/16, o'i gymharu â 1,932 yn 2013/14 (cynnydd o 7%).


### Dadansoddiad o gwynion yn ôl sector

Mae cynghorau sir wastod wedi cynhyrchu'r nifer mwyaf o gwynion i'r swyddfa hon. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir ganddynt. Dros nifer o flynyddoedd yr oedd lefel y cwynion a gafwyd am gynghorau sir wedi bod yn weddol gyson, fodd bynnag mae'r dwy flynedd diwethaf wedi gweld cynnydd. Yn benodol, bu cynnydd o 5% ar y sefyllfa ddiwedd 2013/14.

Mae'r cynnydd mewn cwynion am gyrff y gwasanaeth iechyd yn parhau. Bu cynnydd o 1% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (769 o gwynion o'i gymharu â 759 yn 2013/14).

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad y cwynion a dderbyniwyd fesul sector.


**Cwynion yn ôl sectorau cyrff cyhoeddus**




### Cwynion am gyrff cyhoeddus yn ôl testun

Fel y gwelir o'r siart isod, mae cwynion iechyd yn cyfrif am 34% o'r llwyth achosion, o'i gymharu â 36% yn 2013/14. Mae'r gostyngiad bychan iawn hwn yn y gymhareb yn ganlyniad cynnydd mewn mathau eraill o gwynion a gafwyd yn hytrach na gostyngiad yn nifer y cwynion iechyd a gafwyd (fel sydd wedi'i gadarnhau uchod). Fel y gwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tai (15%) a chynllunio (12%) yw'r meysydd gwasanaeth sydd wedi cyfrif am y nifer mwyaf o gwynion a gafwyd ar ôl cwynion am iechyd.

**Cwynion yn ôl testun 2014/15**




[Sylwer: Mae cwynion wedi'u categoreiddio'n ôl prif faes testun y gŵyn. Fodd bynnag, gall cwynion hefyd gynnwys meysydd eraill mae'r achwynydd yn anfodlon â hwy – er enghraifft, gall cwyn 'Iechyd' hefyd gynnwys cwyn am 'Trafod Cwynion'.]

## Canlyniadau cwynion a ystyriwyd

Fe wnaethom gau 2,015 o gwynion yn ystod 2014/15, o'i gymharu a 1,926 yn ystod 2013/14 (cynnydd o 5%). Ceir crynodeb cyffredinol o ganlyniad yr achosion a gaewyd yn y tabl isod, a cheir dadansoddiad o ganlyniad y cwynion a ystyriwyd fesul awdurdod rhestredig yn ystod 2014/15 yn Atodiad B.

Rwy'n falch dros ben ein bod wedi llwyddo i gau'r lefel hyn o achosion yn ystod y flwyddyn ac ein bod yn parhau i gadw i fyny gyda'r nifer o cwynion i'r swyddfa. Tra roedd nifer y cwynion mewn llaw ar ddiwedd 2014/15 yn 446, o'i gymharu â 393 ar ddiwedd 2013/14 rwy'n parhau yn fodlon fod llwyth achosion o'r nifer yma mewn llaw ar unrhyw un adeg yn rhesymol ac nid wyf yn ystyried hyn i fod yn olgroniad.

| **Cwyn am Gorff Cyhoeddus** | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|
| Caewyd yr achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol* | 1,564 | 1,402 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 23 | 47 |
| Cafodd y gŵyn ei setlo'n wirfoddol (gan gynnwys "ateb sydyn" mewn 127 o achosion) | 164 | 214 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 8 | 18 |
| Ymchwiliad: ni chafodd y gŵyn ei chadarnhau | 71 | 63 |
| Ymchwiliad: cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n llawn neu'n rhannol | 173 | 173 |
| Ymchwiliad: cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n llawn neu'n rhannol – adroddiad budd cyhoeddus | 12 | 9 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – Cwynion** | **2,015** | **1,926** |


[* Mae achosion a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol' yn cynnwys rhai a dderbyniwyd:

- tu allan i fy awdurdodaeth
- yn rhy gynnar (hynny yw, nad oedd yr achwynydd wedi cwyno at y darparwr gwasanaeth yn gyntaf, gan rhoi'r cyfle iddynt i wneud pethau'n iawn)
- nad oedd yn darparu tystiolaeth o gamweinyddu neu fethiant o ran y gwasanaeth
- nad oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth o galedi neu anghyfiawnder a ddioddefwyd gan yr achwynydd.
- na fyddid yn llwyddo i gyflawni llawer mwy drwy barhau i ddilyn y mater (er enghraifft, efallai bod corff cyhoeddus eisoes wedi cydnabod ei fod wedi darparu gwasanaeth gwael ac wedi ymddiheuro).]

## Cyfnodau penderfynu


### Yr amser a gymerwyd i hybysu achwynwyr a fyddaf yn trafod y gŵyn

Mewn perthynas â chwynion am gyrff cyhoeddus, fe wnaethom hysbysu 93% o achwynwyr o fewn 4 wythnos a fyddaf yn ymchwilio i'w cwyn (o'r dyddiad pan gafwyd digon o wybodaeth). Mae hyn yn well na'r targed o 90% y gwnaethom osod i'n hunain. Ceir fwy o fanylion ar yr amseroedd hyn yn y siart isod.



**Amserodd Ymchwilio**

Gwnaethom gwblhau 99% o ymchwiliadau o fewn 12 mis, yn erbyn y targed o 100% y gwnaethom osod i'n hunain. Roedd dau achos a aeth dros 12 mis. Roedd y ddau o'r rhain yn cynnwys heriau cryf gan rheiny yn ymwneud â'r ymchwiliad. Arweiniodd hyn at yr angen am gyngor clinigol pellach yn yr achos cyntaf, ac adolygiad mewnol o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr ail cyn inni fedru cwblhau'r ymchwiliad. Mae'r siart isod yn rhoi manylion pellach ar y cyfnodau amser a gymerwyd i gwblhau ymchwiliadau sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus.




# Cwynion Cod Ymddygiad


## Cwynion a dderbyniwyd

Yn gyffredinol, roedd y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (231 yn 2014/15 o'i gymharu â 228 yn 2013/14). Fodd bynnag, gwelodd y flwyddyn ddiwethaf gynnydd yn nifer y cwynion am aelodau o gynghorau sir neu fwrdeistref sirol, tra disgynnodd nifer y cwynion yn ymwneud ag aelodau o gynghorau cymuned. Gellir gweld hyn yn y tabl isod.

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned | 106 | 115 |
| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | 125 | 111 |
| Awdurdod Tân | 0 | 2 |
| Parc Cenedlaethol | 0 | 0 |
| Panel Heddlu a Throsedd | 0 | 0 |
| **Cyfansswm** | **231** | **228** |

## Natur cwynion Cod Ymddygiad

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd mwyafrif y cwynion a gafwyd yn ystod 2014/15 yn ymwneud â materion 'cydraddoldeb a pharch'. Yn 2014/15 dyma oedd sail 35% o'r cwynion cod ymddygiad a gafwyd o'i gymharu â 36% yn 2013/14. Roedd y meysydd eraill mwyaf niferus yn ymwneud â datgelu a chofrestru budd (22%), a gonestrwydd (16%).




[Noder: er yn dangos '0%' roedd yna 1 gŵyn yn ymwneud â 'Anhunandoleb a stiwardiaeth'.]

## Canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad

O'r 239 o achosion Cod Ymddygiad a gaewyd yn 2014/15, caewyd y mwyafrif o dan y categori a ddangosir isod fel 'Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol'. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau megis:

- nid oedd tystiolaeth olwg gyntaf bod y Cod wedi'i dorri
- nid oedd y toriad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad (ac yn annhebygol o arwain at sancsiwn)
- roedd y digwyddiad a oedd wrth wraidd y gŵyn wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol (cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod).

Cyfeiriwyd nifer uwch o adroddiadau ymchwilio naill ai at bwyllgor safonau'r awdurdod lleol neu at Banel Dyfarnu Cymru yn 2014/15 (9 o gwynion) o gymharu â 2013/14 (6 cwyn). Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r cyrff hyn yw hi i ystyried y dystiolaeth a gafwyd, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a roddir gerbron gan yr aelod dan sylw. Yna iddynt hwy yw penderfynu a yw toriad wedi digwydd ac, os felly, pa gosb, os o gwbl, y dylid ei gosod.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod:

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 178 | 176 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 7 | 12 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 20 | 8 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim tystiolaeth o doriad | 17 | 10 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim angen gweithredu | 8 | 17 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at Bwyllgor Safonau | 8 | 5 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 1 | 1 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion Cod Ymddygiad** | **239** | **229** |

Yn awr, disgwylir i gynghorwyr sir i wneud eu cwynion am gynghorwyr eraill o fewn eu hawdurdod i'w swyddog monitro. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gael cwynion 'lefel isel' o'r math hwn yn cyrraedd fy swyddfa. Gall y rhain, er enghraifft, fod yn honiadau o fethiannau i ddangos parch ac ystyriaeth o eraill o dan baragraff 4(b) y cod. Rydym wedi adolygu ein harfer wrth ddelio â'r cwynion o'r math hwn sy'n dod i fy swyddfa, a byddwn yn cymryd sefyllfa gadarnach yn y dyfodol wrth gyfeirio y cwynion 'lefel isel' yn ôl i swyddogion monitro i gael eu trin yn lleol.

Ceir dadansoddiad manwl o'r canlyniadau i gwynion Cod Ymarfer a ystyriwyd fesul awdurdod lleol yn ystod 2014/15 yn Atodiad C.


## Cyfnodau penderfynu

### Yr amser a gymerir i ddweud wrth yr achwynydd os byddaf yn trafod eu cwyn

O ran cwynion Cod Ymddygiad, rhoddwyd gwybod i 79% o achwynwyr o fewn 4 wythnos a fyddwn i yn trafod eu cwyn (o'r dyddiad bod digon o wybodaeth wedi'i dderbyn). Mae hyn yn is na'r targed o 90% y gwnaethom osod i'n hunain.


Fodd bynnag, yn wahanol i'r sefyllfa mewn perthynas â chwynion gorff cyhoeddus, er nad yn rhaid iddynt, gall aelodau (ac yn aml maent yn gwneud) roi sylwadau ar y gŵyn yn eu herbyn pan fyddant wedi cael gwybod am y gŵyn. Tra felly y gall gymryd mwy o amser i benderfynu p'un ai i gychwyn ymchwiliad, rwyf o'r farn ei bod yn decach i ni gymryd i ystyriaeth yr hyn sydd gan aelod i'w ddweud cyn gwneud penderfyniad. Mae hyn oherwydd bod cychwyniad ymchwiliad ffurfiol yn erbyn aelod yn fater streslyd a difrifol i'r aelod sy'n destun y gŵyn. Serch hynny, byddaf yn gweithio yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn cynghori yr achwynydd a'r aelod cyhuddedig ill dau yn brydlon ynghylch a fyddwn yn cymryd y mater i mewn ymchwiliad neu beidio.

Mae rhagor o fanylion ar amseroedd penderfynu yn cael eu dangos trosodd.




**Amseroedd Ymchwilio**

Mae'r sefyllfa ar gyfer cwblhau ymchwiliadau cod ymddygiad yn un cadarnhaol. Yr wyf yn falch ein bod dros y flwyddyn ddiwethaf wedi llwyddo i gyrraedd ein targed 100% ar gyfer cwblhau ymchwiliadau o fewn 12 mis, fel y gwelir yn y siart isod.



# Atodiad C

## Cwynion Ynghylch y Cod Ymddygiad:

## Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau yn ôl Awdurdodau Lleol

## CYNGHORAU SIR/CYNGHORAU BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/ Cyngor Bwrdeistref Sirol | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1 | | | 1 | | | | **2** |
| Caerffili | 4 | 1 | | | | | | **5** |
| Caerdydd | 15 | | 2 | | 1 | | 3 | **21** |
| Sir Gaerfyrddin | 15 | | | | | | | **15** |
| Ceredigion | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Conwy | 1 | | | | | | | **1** |
| Sir Ddinbych | 2 | | | | | | | **2** |
| Sir y Fflint | 1 | 1 | | | | | | **2** |
| Gwynedd | 6 | 1 | | | 2 | | | **9** |
| Ynys Môn | 2 | | 3 | | 1 | | | **6** |
| Merthyr Tydfil | 4 | | | | | | | **4** |
| Sir Fynwy | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Castell Nedd Port Talbot | 2 | 1 | | | | | | **3** |
| Dinas Casnewydd | | | 1 | | | | | **1** |
| Sir Benfro | 5 | 1 | | | | | | **6** |
| Powys | 8 | 2 | | | | | | **10** |
| Rhondda Cynon Taf | 7 | | 1 | | 2 | | | **10** |
| Abertawe | 9 | 1 | | | | | | **10** |
| Cyngor Bro Morgannwg | 7 | | 1 | | | | | **8** |
| Torfaen | 7 | 2 | | | | | | **9** |
| Wrecsam | | 1 | | | | | 1 | **2** |
| **CYFANSWM** | **100** | **11** | **10** | **1** | **6** | | **4** | **132** |

## CYNGHORAU CYMUNED/TREF

| Cyngor Cymuned neu Dref | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned Abertyleri a Llanhilleth | 4 | | 1 | | | | | **5** |
| Tref Aberystwyth | 4 | | 1 | | | | | **5** |
| Tref Rhydaman | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Arthog | | 1 | | | | | | **1** |
| Tref Bangor | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Bethesda | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | | | | | | | **3** |
| Tref Bwcle | 4 | | | | | | | **4** |
| Cymuned Caerwent | 3 | | | | | | | **3** |
| Tref Cil-y-Coed | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Coedpoeth | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| Tref Cei Connah | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Dinas Powys | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref Abergwaun a Wdig | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Caergybi | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Cydweli | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llanarmon yn Iâl | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llanbadrig | 1 | | | 2 | | | | **3** |
| Cymuned Llanddulas a Rhyd y Foel | 1 | 2 | | | 1 | | | **4** |
| Tref Llandeilo | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Llandudno | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llanedi | 1 | | | | | | | **1** |
| Gwledig Llanelli | 5 | | | | | | | **5** |
| Cymuned Llanfihangel ar Arth | | | | | | 1 | | **1** |

## CYNGHORAU CYMUNED/TREF (PARHAD)

| Cyngor Cymuned neu Dref | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned Llangatwg Feibion Afel | | | 1 | | | | | **1** |
| Cymuned Llangelynnin | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llangennith, Llanmadog a Cheriton | 8 | | | | | | | **8** |
| Cymuned Llanharan | 1 | | | | | | | **1** |
| Cyngor Cymuned Llanofer | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llansanffraid Glan Conwy | | | | | | | 1 | **1** |
| Cymuned Llansannan | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llansanffraid | | | | 1 | | | | **1** |
| Cymuned Llansteffan a Llanybri | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Llanilltud Fawr | 1 | | | | | | | **1** |
| Cyngor Cymuned Llanwnda | | | | | | | 1 | **1** |
| Cymuned Llai | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Mwmblws | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Bro Ogwr | | 1 | | | | | | **1** |
| Tref Penmaenmawr | | 3 | 1 | | | | | **4** |
| Cymuned Pennard | 7 | | | | | | | **7** |
| Tref Prestatyn | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Y Rhyl | | 1 | | | | | | **1** |
| Cymuned Sili | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Tredemel | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Tywyn | 7 | | 2 | 1 | 1 | | | **11** |
| Cymuned y Felinheli | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **78** | **8** | **6** | **7** | **2** | **1** | **3** | **105** |

## AWDURDODAU TÂN AC ACHUB

| Awdurdod Tân ac Achub | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | | 1 | 1 | | | | | **2** |